

Teitl y Swydd:	Peiriannydd Trydanol
Uned/Ysgol:	Amgylcheddau Prifysgol
Gradd:	7A/B
HERA:	UE19

Prif bwrpas y rôl

Mae'r Peiriannydd Trydanol yn aelod allweddol o'r Tîm Cynnal a Chadw a Datblygu Ystadau, sy'n gyfrifol am gefnogi'r gwaith strategol a gweithredol o gynnal a chadw hirdymor, adnewyddu a gwella amgylcheddol asedau peirianeg drydanol y Brifysgol. Bydd deiliad y swydd yn cydweithio ar draws adrannau Ystadau ac adrannau ehangach y Brifysgol i fynd i'r afael â bylchau perfformiad mewn systemau trydanol a gyrru gwelliannau parhaus ym mherfformiad gwasanaethau adeiladau. Byddant yn rhoi llwyddiant myfyrwyr wrth wraidd gwneud penderfyniadau ac yn sicrhau bod gwaith yn cael ei gynllunio a'i gyflawni i leihau'r aflonyddwch a'r effaith ar fyfyrwyr a'r amgylchedd dysgu.

Mae'r rôl hon yn cefnogi Strategaeth 2030 Prifysgol Metropolitan Caerdydd a'i hymrwymiad i allyriadau carbon sero net drwy sicrhau bod gweithgareddau peirianeg drydanol yn cyfrannu at amgylchedd diogel, hygyrch, cynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr. Bydd deiliad y swydd yn sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi a chynnal a chadw yn cael eu gwybod, eu blaenoriaethu, a'u cyflawni mewn ffordd sy'n gwella profiad y myfyrwyr a'r staff ac yn cefnogi blaenoriaethau addysgu, dysgu, ymchwil ac ymgysylltu cymunedol y Brifysgol.

Bydd deiliad y swydd yn arwain ar gynnal a dilysu arolygon cyflwr systemau trydanol, caffael arolygon gan ymgynghorwyr allanol, a datblygu rhaglenni gwaith blaenoriaethol i fynd i'r afael â diogelwch, hygyrchedd, cydymffurfiaeth statudol, cyflwr, effeithlonrwydd ynni, cysur mewnol, ac anghenion addysgeg.

Bydd y Peiriannydd Trydanol yn cyflawni dyletswyddau Prif Ddylunydd o dan reoliadau CDM ac yn chwarae rhan hanfodol wrth wella'r amgylchedd adeiledig i fyfyrwyr, staff ac ymwelwyr.

Bydd deiliad y swydd yn rhan o dîm bach, cydweithredol a disgwylir iddo weithio'n hyblyg i gefnogi swyddogaethau a blaenoriaethau cysylltiedig eraill yn ôl yr angen, gan gynnwys gwaith achlysurol y tu allan i oriau gwaith mewn ymateb i ddigwyddiadau brys neu i liniaru effaith gwaith ar swyddogaethau craidd.

Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol

- Gweithredu fel prif arbenigwr technegol y Brifysgol ar gyfer gwasanaethau trydanol, gan ddarparu dehongliad awdurdodol o ddeddfwriaeth a safonau (e.e. BS 7671, Rheoliadau Trydan yn y Gwaith).

- Bydd yn dal perchnogaeth dechnegol dros raglenni cydymffurfio trydanol statudol (gan gynnwys archwilio, profi a gwasanaethu), ac yn adolygu, dilysu a llofnodi dogfennaeth a chofnodion cysylltiedig.
- Darparu mewnbwn technegol arbenigol i waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ac adweithiol ar gyfer systemau trydanol, gan ddehongli canfyddiadau arolygu a phrofi i bennu camau unioni priodol.
- Datblygu a blaenoriaethu cwmpasau gwaith clir, a goruchwyllo'r gwaith o gyflawni a chwblhau gwaith adfer a gwella mewn ffordd ddiogel, cydymffurfio a thechnegol gadarn gan adnoddau mewnol a chontractwyr allanol.
- Gweithredu fel person Awdurdodedig a chymwys wrth weinyddu Systemau Trwydded i Weithio a chydlynau cau pŵer ar gyfer gwaith hanfodol gyda rhanddeiliaid allweddol, Ysgolion ac Unedau.
- Bydd yn cynnal mesuriadau cyn ac ar ôl y gwaith i sicrhau gwerth am arian ac effeithlonrwydd i'r Brifysgol trwy ei chontractau Trydanol a gwasanaethau cysylltiedig.
- Bydd yn datblygu a chynnal systemau gwaith diogel trwy weithredu gweithdrefnau Trwydded i Weithio ac Awdurdodi i Weithio, a datblygu SOPs a EOPs.

Manyleb person

Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol

- Gradd mewn Peirianeg Drydanol neu ddisgyblaeth gysylltiedig neu gyfatebol.
- Aelodaeth Siartredig (CEng, IET, neu gyfwerth), neu fod yn gweithio'n weithredol tuag at ei gyflawni.

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Profiad helaeth o gynnal a rheoli arolygon cyflwr systemau trydanol.
2. Profiad o ddatblygu a blaenoriaethu rhaglenni cynnal a chadw cynlluniedig ar gyfer systemau trydanol.
3. Y gallu i ddylunio, pennu a rheoli gwaith adferol a mân adnewyddu trydanol.
4. Dealltwriaeth gref o gydymffurfiaeth statudol, safonau peirianeg drydanol (e.e., BS 7671), a rheoliadau adeiladu.

5. Profiad helaeth o gwmpasu, manylu, caffael ac arwain rhaglenni a phrosiectau a gyflawnir gan gontractwyr ac ymgynghorwyr i gyflawni gwaith.
6. Sgiliau trefnu a rheoli prosiectau cryf.
7. Sgiliau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid rhagorol.
8. Gallu profedig i ddadansoddi data i lywio penderfyniadau a blaenoriaethu adnoddau.
9. Ymrwymiad cryf i wasanaeth cwsmeriaid a darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y myfyrwr.
10. Profiad o ddefnyddio systemau CAFM ar gyfer rheoli asedau a chynllunio gwaith.
11. Ymrwymiad amlwg i leihau effeithiau amgylcheddol systemau trydanol gyda dealltwriaeth gref o effeithlonrwydd ynni, economi gylchol ac arferion peirianeg gynaliadwy.
12. Ymrwymiad amlwg i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Dymunol

1. Profiad o weithio mewn amgylchedd addysg uwch neu ystadau mawr aml-safle.
2. Cymhwyster lechyd a Diogelwch NEBOSH neu IOSH (neu ymrwymiad i ymgymryd â'r hyfforddiant a'r asesiad gofynnol).
3. Profiad o sefydlu'r defnydd o systemau CAFM, a datblygu a mireinio prosesau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli asedau ystadau a rhaglenni gwaith.

Gofynion sgiliau Cymraeg

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: [Lefelau sgiliau iaith Gymraeg](#). Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

Lefel iaith a disgrifiwr cyffredinol	Gwrando	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	Dymunol	Dymunol	Dymunol	Dymunol
A2 - Defnyddiwr sylfaenol				

Yn gallu delio â gwybodaeth syml, uniongyrchol a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol.				
B1 - Defnyddiwr canolradd Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith.				
B2 - Defnyddiwr canolradd uwch Yn gallu mynegi eu hun yn y Gymraeg ar amrywiaeth o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs gyda siaradwr brodorol.				
C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.				
C2 - Prif ddefnyddiwr Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn y Gymraeg.				

Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae'r swydd hon yn gofyn am wiriad DBS sylfaenol.

Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisiâu a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.